



## 50. AM ATEB! (Pedr yn y carchar)

Dychmygwch eich bod yn Gristion yn byw yn Jerwsalem oddeutu 46 oc. Rydych wedi dod i dŷ gwraig o'r enw Mair i gyfarfod â'ch cyd-gredinwyr. Yn arferol, cyfle i ddathlu yw'r cyfarfodydd hyn gyda'r ystafell yn llawn chwerthin a gwên ar wyneb pawb. Ond heddiw wynebau pryderus sydd yno. Bu cyfnod o erlid creulon. Mae'r Brenin Herod, llywodraethwr Palestina, newydd ddiennyddio'r apostol lago – un o'ch arweinwyr. A nawr mae e wedi arestio Pedr hefyd.

Daw Mair atoch gan eich cyfarch. 'Pa newydd?' gofynnwch iddi'n bryderus.

Mae'n ochneidio. 'Dim yn dda, mae gen i ofn. Mae Pedr i gael ei ddwyn ar brawf yfory.'

Rydych chi'n ymwybodol o beth mae hyn yn ei olygu. Os caiff yr Iddewon eu ffordd caiff Pedr hefyd ei ddiennyddio. Bu colli lago'n ergyd greulon. Ond byddai colli Pedr, gyda'i holl egni a'i brofiad a'i ddoniau a'i weledigaeth a'i nerth fel arweinydd . . . wel, yn rhy erchyll i'w ystyried hyd yn oed.

Ond beth medrwyd chi ei wneud? Mae rhai posibiliadau'n gwibio drwy'ch meddwl. Ymbil gerbron Herod? (Wnaiff o ddim gweithio

– does gan Herod ddim amynedd â Christnogion.) Helpu Pedr i ddianc? (Dim gobraith – mae e wedi ei glymu mewn cadwynau rhwng dau filwr arfog.) Rhedeg i fwrdd rhag ofn i Herod eich arestio chithau hefyd? (Mae'n demtasiwn – ond rydych yn benderfynol o beidio siomi Duw.) Na, does ond un peth amdani. Rydych yn credu mewn Duw sy'n clywed ac yn ateb gweddi. Felly, y cyfan y gallwch chi ei wneud yw syrthio ar eich gliniau gyda gweddi y grŵp yn yr oruwchystafell a gweddïo â'ch holl galon.

\*'Helpa Pedr, Arglwydd.' 'Arglwydd, achub ef.' 'Bydd gydag ef, Arglwydd,' rwyf yn gweddïo.

Daflad carreg i fwrdd, mewn cell ddrewllyd oer ar gyrion y ddinas, mae Pedr yn gweddïo hefyd – dros ei wraig, dros loan brawd lango, a dros ei gyd-Gristnogion. Mae ganddo gadwynau ar ei freichiau ac mae'n gorwedd rhwng dau filwr sy'n chwyrnu cysgu. Mae'n gwybod mai hon efallai fydd ei noswaith olaf ar y ddaear hon. Go brin y bydd yn gallu cysgu heno. Ond, yn sydyn, mae'n breuddwydio – yn breuddwydio fod y gell dywyll yn llawn golau ac mae angel yn rhoi llaw ar ei ysgwydd.

'Brysia! Cwyd!' dywed yr angel. Ar unwaith, gyda chlec, fe syrth cadwynau Pedr i'r llawr.

'Rho dy wregys a'th sandalau a'th glogyn amdanat a dilyn fi,' yw cyfarwyddiadau'r angel.

Mewn amrantiad maent y tu allan i'r gell ac yn wynebu'r Gwyliwr cyntaf. Fydd y milwr yn eu gweld? Mae Pedr yn dal ei wynt. Myn cebyst! Maen nhw newydd gerdded heibio ac nid yw'r milwr wedi symud gewyn. Nesaf – yr ail Wyliwr. Fe ddigwydd yr un peth eto. Mae fel petai'r milwyr wedi eu parlysu. Mae Pedr a'r angel yn parhau i gerdded nes cyrraedd gât haearn drom – y rhwystr olaf cyn cael rhyddid. Ond myn brain i! Mae'n agor o'u blaenau'n union fel drysau trydanol archfarchnadoedd ein cyfnod ni. Ac allan â hwy i'r stryd. Ac fe ddiflannodd yr angel.

Mae Pedr yn ceisio'i gael ei hunan i ddeffro. Mae'n rhoi pinsiad iddo'i hunan. Ond does dim yn newid. Mae'n dal i fod allan yn yr awyr agored yn syllu ar y sêr. Hei, aros funud! Yr angel . . . y cadwynau toredig . . . y drws awtomatig – mae hyn yn hollol wir. Mae'n rhydd!

'Fedra i ddim aros i ddweud wrth bawb am hyn,' meddai gan chwifio'i ddwrn mewn buddugoliaeth – ac yna i fwrdd ag ef.

Efallai y gallwch ddyfalu ble mae'n mynd?

I dŷ Mair lle mae'r cyfarfod gweddi'n parhau o hyd.

\*'Helpa Pedr, Arglwydd.' 'Arglwydd, achub ef.' 'Bydd gydag ef, Arglwydd.'

Rydych chi i gyd mor brysur yn gweddi'o fel eich bod yn flin pan mae cnoc uchel ar y drws yn tarfu arnoch.

'O diar! Wnei di ateb hwnna?' gofynna Mair i Rhoda, ei morwyn.

Mae Rhoda'n gadael yr ystafell ac rydych chithau'n dal ati i weddi'o.

\*'Helpa Pedr, Arglwydd.' 'Arglwydd, achub ef.' 'Bydd gydag ef, Arglwydd.'

Ond o fewn eiliadau mae Rhoda'n ôl, yn llawn cynnwrf.

'Pedr sydd yna!' mae'n gweiddi.

'Beth?'

'Mae e tu allan i'r drws!'

Y ferch druan. Mae'n gweld pethau!

'Does bosib fod Pedr yna. Mae e yn y carchar,' yw sylw Mair.

Ond mae Rhoda'n glynu at ei stori. 'Fe glywais ef tu allan i'r drws. "Fi, Pedr sydd yma. Agor y drws i mi," dyna ddywedodd o.'

Rydych chi i gyd yn edrych ar eich gilydd. Does bosib fod y ferch yn dweud y gwir, oes yna?

'Fi, Pedr sydd yma. Gadewch i mi ddod i mewn,' clywir llais dyn yn gweiddi islaw.

'Rhyfedd! Mae'n swnio fel Pedr,' dywed rhywun.

'Mae'n rhaid mai ei angel gwarcheidol sydd yna,' medd rhywun arall.

Wel, mae'n angel diamynedd iawn, meddech chithau wrthych eich hunan.

Mae Mair yn gadael yr ystafell. Rydych yn clywed sŵn ei thraed ar y grisiau. Yna clywir gwich a thwrw'r bolltiau wrth iddi agor y drws.

Ac yna'r waedd, 'Pedr!'

'Beth ddywedais i?' medd Rhoda.

‘Mae o yma! Yn ddiogel!’ Rydych yn rhuthro i lawr y grisiau gyda gweddill y criw gan fwrw’ch hunan arno. Mae’n ffodus ei fod yn ŵr mawr, neu efallai mai dianc rhag cleddyf Herod ac yna cael ei gofleidio i farwolaeth fyddai ei hanes!

Yn hwyr neu’n hwyrach mae’r holl gyffro’n tawelu. Mae gan Pedr rywbeth i’w ddweud. Gan ysgwyd ei ben fel petai’n parhau i gael traferth credu’r hyn a ddigwyddodd, mae’n adrodd yr holl stori – o’r funud yr ymddangosodd yr angel i’r funud y canfu ei hunan yn cerdded i lawr y stryd.

Rydych yn gwrando, prin yn medru coelio’r hyn a glywch, gan gofio am eich rhan chi yn ei achub.

Dyna lle buoch chi ar eich gliniau: \* ‘Helpa Pedr, Arglwydd.’ ‘Arglwydd, achub ef.’ ‘Bydd gydag ef, Arglwydd,’ oedd eich gweddi.

Rydych yn edrych i fyny ar Pedr sy’n gwenu fel giât ac mor fyw ag erioed.

Am ddyn!

Am Dduw!

Am ateb!

**HYD:** Stori sylfaenol: 5 munud. Bydd angen i chi ganiatáu rhagor o amser i’r grŵp lunio eu gweddiâu.

**NEGES:** Mae’r Beibl yn dangos gwerth gweddiö dros eraill

**DARLLEN:** Actau 12: 1–17

### **ADRODD Y STORI I GRŴP:**

Cymerwch saib wedi’r \*serennig gyntaf gan ofyn i’r grŵp feddwl am weddiâu byr eu hunain dros Pedr. Copiwch y rhain ar dudalen fawr o bapur. Yna gall y grŵp gyfrannu i’r stori trwy ailadrodd y brawddegau hyn yn y manau nodedig yn y stori. (Pwrpas y gweithgaredd efelychu gweddi hwn yw rhoi cymorth i blant gael rhyw syniad o effeithiolrwydd gweddi. Gall hefyd fod yn sbardun i fynd ati o ddifrif i weddiö, gan eu hannog i weddiö dros eraill.)